**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

# COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 MEDI 2007, 16.30 – 19.30, YSTAFELL GYFARFOD Y PEDWERYDD LLAWR

**Yn bresennol:**

Dafydd Elis-Thomas AC (Llywydd)
William Graham AC (Ceidwadwyr)
Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol)
Lorraine Barrett AC (Llafur)
Chris Franks AC (Plaid Cymru)

**Swyddogion yn bresennol:**

Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc)
Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredol)
Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)
Aled Eirug (Ymgynghorwr Cyfansoddiadol)
Steve O'Donoghue (Pennaeth Gwasanaethau Cyllid) – eitem 3
Craig Stephenson (Pennaeth yr Uned Gorfforaethol)
Cerys Gage (Ysgrifenyddiaeth)

**Cynghorwyr annibynnol:**

Neb yn bresennol

**Yn arsylwi:**

Neb

**Ymddiheuriadau:**

Dim

**Eitem 1a.  Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2007 yn gywir.

**Eitem 1b. Materion yn codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

**Eitem 1c.  Materion a drafodwyd drwy ohebiaeth ers y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin a'r penderfyniadau a wnaed**

Ni chafodd unrhyw faterion eu trafod drwy ohebiaeth ers y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf.

**Eitem 2. Y Trydydd Cynulliad**

**Strategaeth Comisiwn y Cynulliad**

Bu i Gomisiwn y Cynulliad ystyried y strategaeth ddrafft a chytuno ar y nodau a'r amcanion ym mhapur 1.

Nodwyd bod y strategaeth wedi cael croeso ac y byddai o gymorth wrth baratoi'r Cynlluniau Gweithredol a fydd yn rhan o'r Cynllun Corfforaethol ehangach yn y pen draw.

Rhoddodd y Llywydd ddiolch am y cyfleusterau a ddarparwyd ar y pedwerydd llawr ar gyfer Comisiwn y Cynulliad, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a staff, gan ddweud eu bod yn adlewyrchu nodweddion tryloyw ac agored y Senedd.

Cafwyd cadarnhad bod Ystafell Gynadledda 4B ar gael i'r Comisiynwyr ei defnyddio ac ar gyfer cyfarfodydd eraill fel cyfarfodydd y Comisiwn a'r Pwyllgor Busnes.

**Eitem 3. Adnoddau**

**Cyllideb Atodol 2007/08**

Bu i Gomisiwn y Cynulliad drafod yr argymhellion ym mhapur 2A am gyllideb atodol 2007/08 a chytuno arnynt.

Nododd Comisiwn y Cynulliad nad yw amserlen y gyllideb atodol yn sicr ar hyn o bryd. Gan fod arian yn trosglwyddo oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad, mae'r gyllideb atodol yn parhau i fod yn gysylltiedig â chyllideb atodol y Llywodraeth. Nodwyd ei bod yn bosib y bydd y Llywodraeth yn rhoi ei chyllideb atodol gerbron erbyn diwedd mis Hydref 2007.

Nodwyd nad yw tâl a lwfansau'r Aelodau wedi'u cyfrif ac y bydd y gyllideb yn cynnwys amcan o'r costau hyn. Nododd Comisiwn y Cynulliad y gall fod angen cynnig arall ar y gyllideb atodol os bydd canlyniad yr adolygiad yn wahanol i'r amcan hwnnw, ond cytunodd y dylid osgoi hyn os yn bosib.

**Cynigion cyllideb 2008/09**

Bu i Gomisiwn y Cynulliad drafod yr argymhellion ym mhapur 2B am gyllideb 2008/09 a chytuno arnynt.

Nododd Comisiwn y Cynulliad fod angen gosod cyllideb ddrafft 2008/09 erbyn 24 Medi 2007. Trafodwyd y posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyn am i Reolau Sefydlog 27.9-12 gael eu gohirio oherwydd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Cytunwyd i geisio oedi cyn gosod cyllideb derfynol y Comisiwn er mwyn cyd-fynd ag amserlen ddiwygiedig Llywodraeth y Cynulliad.

**Cam i'w gymryd:** Dylid gosod y gyllideb ddrafft erbyn 24 Medi 2007. Caiff Rheolau Sefydlog 27.9-12 eu gohirio os ceir cadarnhad am y cynnig ar gyllideb flynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Eitem 4. Ffyrdd o weithio

**Cyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad**

Bu i Gomisiwn y Cynulliad drafod yr argymhellion ym mhapur 3 am gyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad yn y dyfodol, a chytuno arnynt.

Bu Comisiwn y Cynulliad yn trafod amseriad y cyfarfodydd a chytunodd i gyfarfod rhwng 8.30-9.30am, ac i ystyried cyfarfod am 8.00am yn ôl y galw. Nodwyd y bydd amlder cyfarfodydd y Comisiwn yn amrywio ac y bydd modd trefnu cyfarfodydd ychwanegol i drafod materion brys. Nodwyd y byddai modd cytuno ar faterion drwy e-bost tu allan i'r cyfarfodydd hefyd.

## Eitem 5. Papurau i'w nodi

Bu i Gomisiwn y Cynulliad nodi papur 5A ynghylch y Polisi Rheoli Cofnodion a phapur 5B ynghylch y Polisi Gweddarlledu. Cymeradwywyd y polisïau gan Gomisiynwyr unigol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau portffolio.

## Eitem 6. Tâl chwipiaid y pleidiau

Bu Comisiwn y Cynulliad yn trafod eitem ychwanegol ynghylch tâl chwipiaid y pleidiau yng ngoleuni llythyr gan Brif Weinidog Cymru at y Llywydd. Cytunodd Comisiwn y Cynulliad y dylid trafod y mater ochr yn ochr â'r adolygiad o dâl a lwfansau'r Aelodau ond y byddai'n ystyried papur ar drefniadau mewn sefydliadau tebyg yng nghyfarfod nesaf Comisiwn y Cynulliad. Câi llythyr ei anfon at y Prif Weinidog yn nodi hyn. Roedd y Comisiynwyr yn teimlo y dylid ceisio sicrhau bod pob plaid yn cytuno â'r cynnig.

**Cam i'w gymryd:** Ymateb drafft i'w anfon at y Prif Weinidog yn nodi y dylid ceisio sicrhau pob plaid yn cytuno â'r cynnig ac y bydd y Comisiwn yn trafod papur am y mater yn ei gyfarfod nesaf.

## Eitem 7. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 14 Tachwedd 2007.

**Yr Uned Gorfforaethol**
**Dyddiad**